# Safonau Rheoleiddio Da

**Fframwaith tystiolaeth**

**Hydref 2019**

**Cyflwyniad**

Mae’r Safonau Rheoleiddio Da (y Safonau) yn disgrifio canlyniadau rheoleiddio da pob un o swyddogaethau rheoleiddiol y rheoleiddiwr.

Mae'r fframwaith tystiolaeth, a nodir yn y tabl isod, yn rhoi enghreifftiau o dystiolaeth y gallwn adolygu fel rhan o'n hasesiad o reoleiddiwr yn erbyn y Safon. Ni fwriedir i'r enghreifftiau a restrir yn y golofn ‘tystiolaeth bosibl’ fod yn hollgynhwysol, ac oherwydd bod y rheolyddion yn gweithredu o fewn cyd-destunau gwahanol, bydd perthnasedd y gwahanol fathau o dystiolaeth yn amrywio o un rheoleiddiwr i’r llall. Am y rheswm hwnnw, nid ydym yn rhagnodi set safonol o dystiolaeth y byddwn yn ei defnyddio i asesu pob rheoleiddiwr.

Gan nad yw'r rhestr o dystiolaeth bosibl yn hollgynhwysfawr, efallai y byddwn yn dewis defnyddio tystiolaeth ychwanegol yn ein hasesiad. Yn yr un modd, rydym yn annhebygol o ddefnyddio'r holl dystiolaeth bosibl ar gyfer yr holl Safonau ar gyfer pob rheoleiddiwr. Bydd rhywfaint o wybodaeth sy'n ffurfio'r dystiolaeth bosibl ar gael i'r cyhoedd, bydd rhywfaint yn cael ei chadw gan yr Awdurdod, a bydd angen i ni geisio rhywfaint gan reolyddion. Amlygir hyn o fewn y fframwaith (gweler yr allwedd isod), ond dylid nodi y bydd amrywiaeth yn yr hyn sydd ar gael i'r cyhoedd ar draws y rheolyddion ac nad yw'r rhain yn bendant. Bydd y wybodaeth y byddwn yn ei cheisio gan y rheolyddion yn cael ei chadw i isafswm, yn dibynnu ar yr hyn y mae gennym fynediad ato, a lle bo'n berthnasol bydd yn debygol o gael ei cheisio trwy geisiadau am ragor o wybodaeth neu adolygiadau wedi'u targedu.

Gallai rhai elfennau o fewn y fframwaith tystiolaeth fod yn berthnasol ar draws yr holl Safonau, er enghraifft adborth a ddarperir i ni gan y cyhoedd neu sefydliadau trydydd parti. O fewn y fframwaith tystiolaeth, rydym ond wedi tynnu sylw at rai elfennau o'r fath lle mae ein profiad yn dweud wrthym ein bod yn fwy tebygol o ddefnyddio'r wybodaeth hon.

Bydd y ddogfen hon yn cael ei hadolygu mewn cydweithrediad â'r rheolyddion cyn ei gweithredu, a bydd yn destun adolygiad rheolaidd unwaith y bydd yn weithredol.

Allwedd:

- Gwybodaeth sy'n debygol o fod ar gael yn gyhoeddus neu'n cael ei chadw gan yr Awdurdod
- ❖ Gwybodaeth y mae'n debygol y bydd angen i'r Awdurdod ei cheisio gan reolyddion

# Safonau Rheoleiddio Da

**Fframwaith tystiolaeth**

**Hydref 2019**

| Safonau Cyffredinol | |
|---|---|
| | **Tystiolaeth bosibl** |
| **Safon Un**<br>Mae'r rheoleiddiwr yn darparu gwybodaeth gywir, cwbl hygyrch ynghylch ei unigolion cofrestredig, gofynion rheoleiddiol, arweiniad, prosesau a phenderfyniadau. | • Gwybodaeth ar argaeledd a hygyrchedd gwybodaeth am weithgareddau rheoleiddiol dosbarthu'r cynllun i randdeiliaid, argaeledd mewn fformatau/ieithoedd eraill<br>• Amserlenni adolygu dogfennau<br>❖ Dogfennau a chanllaw i staff y rheoleiddiwr ar pa wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus, a beth na ddylid ei ddatgelu, ac unrhyw bolisïau a chanllaw datgeliad<br>• Gwybodaeth a gedwir gan yr Awdurdod o wiriadau ar gywirdeb y wybodaeth a gyhoeddir ar y gofrestr<br>• Cyhoeddir dogfennau canllaw ar gyfer darparwyr addysg a hyfforddiant, ac i fyfyrwyr/hyfforddeion, ar wefan y rheoleiddiwr<br>• Safonau cyhoeddedig ar gyfer addysg a hyfforddiant<br>• Gwybodaeth wedi'i chyhoeddi am raglenni addysgol cymeradwy a'r broses cymeradwyo/sicrhau ansawdd (SA)<br>• Gwybodaeth gyhoeddedig am y gofrestr, gan gynnwys ar gyfer beth y mae, sut i'w gwirio, beth sydd ynddi a pha fathau o wybodaeth nad yw'n ei harddangos<br>• Gwybodaeth glir, gyhoeddedig i ymgeiswyr (gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, busnesau a mangreoedd), gan gynnwys y safonau cofrestru, sut mae'r rhain yn cael eu cymhwyso, sut mae'r rheoleiddiwr yn penderfynu ar fynediad i'r gofrestr, a'r broses apelio<br>❖ Tystiolaeth bod adborth gan ddefnyddwyr am hygyrchedd y gofrestr a'r wybodaeth sydd ganddi yn cael ei chasglu a'i hadolygu'n rheolaidd<br>• Gwybodaeth wedi'i chyhoeddi am rôl y rheoleiddiwr mewn perthynas ag ymarfer anghyfreithlon, ac am y camau y mae'r rheoleiddiwr wedi'u cymryd mewn perthynas â hyn<br>• Cyhoeddi gwybodaeth i randdeiliaid am y broses addasrwydd i ymarfer parhaus (CFTP)<br>• Gwybodaeth sydd ar gael i randdeiliaid, gan gynnwys canllawiau, ar sut mae'r broses addasrwydd i ymarfer (FTP) yn cael ei chyflawni a pha fathau o gwynion y gellir delio â nhw<br>• Gwybodaeth am sut mae'r rheoleiddiwr yn cyfathrebu i unigolion cofrestredig ac i'r cyhoedd yn gyffredinol am ddeilliannau ei weithgaredd FTP e.e. Trwy gyhoeddi data ystadegol a chrynodebau achos neu adroddiad FTP blynyddol<br>• Proses ar gyfer cyhoeddi penderfyniadau FTP, a chanllawiau ar yr hyn na ddylid ei gyhoeddi<br>• Canlyniadau gwrandawiadau cyhoeddedig a nodiannau cysylltiedig y gofrestr |

| | |
|---|---|
| **Safon Dau**<br>Mae'r rheoleiddiwr yn glir ynghylch ei ddiben ac yn sicrhau y gweithredir ei bolisïau yn briodol ar draws ei holl swyddogaethau ac y gweithredir dysgu perthnasol o un maes mewn eraill. | • Tystiolaeth o ddiben dogfenedig y rheoleiddiwr a sut mae hyn yn cael ei fynegi ar gyfer rhanddeiliaid, gan gynnwys sut mae hyn yn berthnasol i'w amcanion statudol fel y nodir yn ei ddeddfwriaeth<br>• Tystiolaeth o weithgareddau a gyflawnir gan y rheoleiddiwr sy'n cyd-fynd â'i amcanion statudol, a sut mae'r rheoleiddiwr yn ystyried unrhyw wrthdaro posibl yn ei waith gyda'r rhain, er enghraifft gwaith i gefnogi neu ddatblygu'r proffesiwn<br>• Cynlluniau busnes a strategol, gan gynnwys sut mae'r rhain yn berthnasol i swyddogaethau statudol<br>• Goruchwyliaeth y Cyngor/Bwrdd o gyflawni strategol<br>• Tystiolaeth o reoli gwrthdaro buddiannau posibl o fewn strwythurau llywodraethu<br>❖ Tystiolaeth ynghylch sut mae'r rheoleiddiwr yn ymgorffori polisïau rheoleiddio newydd ar draws ei swyddogaethau<br>❖ Tystiolaeth o gymhwyso polisïau rheoleiddio'n gyson ar draws y rheoleiddiwr, er enghraifft, polisi ar y dull o ymdrin â throseddau yfed a gyrru sy'n ymwneud ag Addasrwydd i Ymarfer a chofrestru<br>❖ Prosesau i rannu'r hyn a ddysgir ar draws y sefydliad ac enghreifftiau o'r gwaith hwn yn ymarferol, er enghraifft, dysgu o dueddiadau mewn cyfeiriadau a chanlyniadau FTP (gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, canlyniadau FTP myfyrwyr), neu o ddeilliannau arolygiad safle/busnes, lle bo'n berthnasol |
| **Safon Tri**<br>Mae'r rheoleiddiwr yn deall amrywiaeth ei unigolion cofrestredig a'u cleifion a defnyddwyr gwasanaeth ac eraill sy'n rhyngweithio â'r rheoleiddiwr ac yn sicrhau nad yw ei brosesau yn cyflwyno rhwystrau gormodol neu'n creu unrhyw fath o anfantais arall i bobl gyda nodweddion gwarchodedig. | • Gwybodaeth sydd ar gael i'r rheoleiddiwr ac a gesglir ganddo am unigolion cofrestredig a'r prosesau sy'n effeithio arnynt, megis FTP a chofrestru<br>❖ Tystiolaeth bod data a gesglir yn cael ei ddadansoddi, camau a gymerwyd mewn ymateb i faterion a nodwyd gan y dadansoddiad hwn, a thystiolaeth o effaith y camau hyn<br>• Ymchwil neu weithgareddau eraill a wneir gan y rheoleiddiwr i hysbysu ei hun am faterion sy'n berthnasol i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (EDI)<br>❖ Tystiolaeth o ddealltwriaeth y rheoleiddiwr o'i gyfrifoldebau o ran EDI, a sut mae'n adrodd ar y rhain<br>❖ Data ar gyfansoddiad y Cyngor/Bwrdd, pwyllgorau a chronfeydd aseswyr, a sut mae'r rhain yn cymharu â'r unigolion cofrestredig a'r boblogaeth ehangach<br>❖ Manylion sut mae'r rheoleiddiwr yn sicrhau bod ei brosesau yn rhydd o duedd, yn cynnwys dulliau casglu data neu brosesau eraill sy'n sicrhau tegwch a gwrthrychedd<br>❖ Camau a gymerwyd gan y rheoleiddiwr i fynd i'r afael â phryderon a godwyd gan randdeiliaid am effaith ei brosesau<br>❖ Enghreifftiau o Asesiadau Effaith Cydraddoldeb a gynhaliwyd gan y rheoleiddiwr<br>• Gwybodaeth am brosesau sydd ar waith sy'n caniatáu i unrhyw un godi pryder, er enghraifft y rhai nad ydynt yn gallu mynegi pryder yn ysgrifenedig<br>• Gwybodaeth a phryderon a godwyd gyda'r Awdurdod gan randdeiliaid<br>• Canllawiau i randdeiliaid mewn perthynas â myfyrwyr ac unigolion cofrestredig ag anableddau<br>• Cyfeirio unigolion agored i niwed sydd mewn cysylltiad â'r rheoleiddiwr i fecanweithiau cymorth priodol<br>• Polisi neu bolisïau yn ymwneud ag addasiadau rhesymol |

| | |
|---|---|
| **Safon Pedwar**<br>Mae'r rheoleiddiwr yn adrodd ar ei berfformiad ac yn delio â phryderon a nodwyd amdano ac yn ystyried goblygiadau canfyddiadau ymchwiliadau cyhoeddus ac adroddiadau perthnasol eraill am faterion rheoleiddio gofal iechyd. | • Papurau a gwybodaeth i'r Cyngor/Bwrdd a/neu bwyllgorau am berfformiad y rheoleiddiwr, gan gynnwys mewn perthynas â chwynion corfforaethol, ac adroddiadau mewnol ac allanol<br>❖ Manylion prosesau ar gyfer hysbysu'r Cyngor/Bwrdd a/neu bwyllgorau am bryderon a godwyd am y sefydliad a/neu ei staff<br>• Adroddiadau blynyddol a gwybodaeth perfformiad arall sydd ar gael i'r cyhoedd<br>• Manylion prosesau tryloyw, hygyrch ar gyfer codi pryderon gyda'r rheoleiddiwr, gan gynnwys sut mae'n diffinio cwynion corfforaethol<br>❖ Data ar nifer y pryderon a godwyd gan randdeiliaid, gan gynnwys y cyhoedd, am y rheoleiddiwr a'r rhai yr ymdrinnir â hwy fel cwynion corfforaethol, ac enghreifftiau o'r rhain<br>❖ Tystiolaeth o ddysgu o gwynion corfforaethol<br>❖ Enghreifftiau o gamau a gymerwyd mewn ymateb i ymholiadau cyhoeddedig ac adroddiadau perthnasol eraill, gan gynnwys adroddiadau gan yr Awdurdod, ymholiadau allanol, adroddiadau polisi perthnasol, adroddiadau crwneriaid<br>❖ Manylion adborth cwsmeriaid a geisiwyd ac a gasglwyd, a'r hyn a ddysgwyd o hyn |
| **Safon Pump**<br>Mae'r rheoleiddiwr yn ymgynghori gydag a gweithio gyda'r holl randdeiliaid perthnasol yn ar draws ei swyddogaethau i nodi a rheoli risgiau i'r cyhoedd parthed ei unigolion cofrestredig. | • Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn gweithio'n briodol yng ngwahanol wledydd y Deyrnas Unedig (lle bo'n berthnasol)<br>• Gwybodaeth am adborth rhanddeiliaid am effeithiolrwydd y broses ymgysylltu ynghylch unrhyw newidiadau sylweddol i waith y rheoleiddiwr, megis adolygu/datblygu safonau a chanllawiau<br>• Ymgynghori â rhanddeiliaid a chamau a gymerwyd o ganlyniad<br>• Enghreifftiau o berthnasoedd gwaith gyda rhanddeiliaid perthnasol, er enghraifft grwpiau cleifion, cyrff proffesiynol, undebau a chyflogwyr<br>• Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a phrosesau rhannu gwybodaeth gyda rhanddeiliaid perthnasol, gan gynnwys ar gyfer rhannu gwybodaeth FTP, a thystiolaeth o ganlyniadau'r prosesau hyn<br>• Gwybodaeth a anfonwyd at yr Awdurdod gan randdeiliaid drwy'r broses Rhannu Eich Profiad<br>❖ Gwybodaeth am sut mae'r rheoleiddiwr yn gweithio gyda sefydliadau eraill i gasglu a rhannu gwybodaeth (gyda mesurau diogelu data priodol) am ei unigolion cofrestredig, a lle bo'n briodol yn cyfeirio achosion FTP at y sefydliadau hynny trwy broses sydd wedi'i dogfennu, sy'n gyson, yn deg, wedi ei chymhwyso'n deg, ac yn cael ei hadolygu'n rheolaidd<br>• Prosesau ar gyfer cyfathrebu/datgelu gwybodaeth FTP nas cyhoeddwyd i randdeiliaid perthnasol, er enghraifft cyflogwyr, fel y bo'n briodol<br>❖ Canllawiau i staff ar gyfeirio achwynwyr at sefydliadau eraill, lle bo'n briodol, a thystiolaeth o hyn yn digwydd |
| **Canllaw a safonau** | |
| | **Tystiolaeth bosibl** |

| | |
|---|---|
| **Safon Chwech**<br>Mae'r rheoleiddiwr yn cynnal safonau cyfredol ar gyfer y rhai sydd wedi cofrestru a gedwir dan adolygiad ac yn blaenoriaethu gofal a diogelwch ble mae'r claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog. | • Safonau cyfredol ar gyfer unigolion cofrestredig, ac unrhyw ddeunydd ategol<br>• Tystiolaeth o'r fframwaith llywodraethu ar gyfer datblygu safonau<br>❖ Gwybodaeth am sut mae'r rheoleiddiwr yn gwerthuso safonau ar gyfer unigolion cofrestredig, gan gynnwys casglu adborth, a threfniadau amlder adolygiadau o'r fath<br>• Gwybodaeth am yr amser ers y diwygiad diwethaf o'r safonau, a manylion am y ffordd y cynhaliwyd yr adolygiad hwnnw<br>• Manylion gwerthusiad o effeithiolrwydd y broses datblygu/adolygu safonau, gan gynnwys mewn perthynas â'r ystyriaeth a roddwyd i safbwyntiau rhanddeiliaid<br>• Tystiolaeth o flaenoriaethu gofal a diogelwch defnyddwyr gwasanaeth o fewn y safonau<br>• Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn casglu adborth gan yr holl randdeiliaid perthnasol am y safonau a sut yr ystyrir yr adborth hwn<br>• Gwybodaeth a dderbyniwyd gan yr Awdurdod ynghylch a yw'r safonau'n blaenoriaethu gofal a diogelwch sy'n canolbwyntio ar y claf a'r defnyddiwr gwasanaeth, gan gynnwys pryderon a godwyd gyda'r Awdurdod |
| **Safon Saith**<br>Mae'r rheoleiddiwr yn darparu canllaw i helpu unigolion cofrestredig weithredu'r safonau ac yn sicrhau bod ei ganllaw yn gyfredol, yn delio â meysydd risg sy'n dod i'r amlwg, ac yn blaenoriaethu gofal a diogelwch ble mae'r claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog. | • Canllawiau cyfredol i unigolion cofrestredig ac unrhyw ddeunydd ategol<br>• Gwybodaeth am sut mae canllawiau yn ymwneud â safonau ac yn adlewyrchu gofal a diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth<br>❖ Gwybodaeth am sut mae'r rheoleiddiwr yn nodi meysydd ar gyfer datblygu canllawiau, gan gynnwys sut mae'r rhain yn mynd i'r afael â meysydd risg sy'n dod i'r amlwg<br>❖ Prosesau ar gyfer datblygu, gweithredu, gwerthuso a diwygio canllawiau, gan gynnwys sut mae adborth rhanddeiliaid yn cael ei ystyried yn y prosesau hyn<br>❖ Manylion yr amser ers y diwygiad diwethaf o ddogfennau canllaw, a gwybodaeth am y ffordd y cynhaliwyd yr adolygiad hwnnw |
| **Addysg a hyfforddiant** | |
| | **Tystiolaeth bosibl** |
| **Safon Wyth**<br>Mae'r rheoleiddiwr yn cynnal safonau addysg a hyfforddiant cyfredol a | • Manylion sut mae'r safonau ar gyfer addysg yn cysylltu/mapio i'r safonau ar gyfer unigolion cofrestredig ac yn blaenoriaethu gofal a diogelwch sy'n canolbwyntio ar y claf a'r defnyddiwr gwasanaeth<br>❖ Manylion proses ffurfiol ar gyfer adolygu'r safonau addysgol a gwybodaeth am amlder a chanlyniad adolygiadau<br>❖ Manylion gwerthusiad o effeithiolrwydd y broses datblygu/adolygu safonau, gan gynnwys mewn perthynas â'r |

| | |
|---|---|
| gedwir dan adolygiad, ac yn blaenoriaethu gofal a diogelwch ble mae'r claf a'r defnyddiwr gwasanaeth yn ganolog. | ystyriaeth a roddwyd i farn rhanddeiliaid a chanlyniadau sicrhau ansawdd<br>• Tystiolaeth bod safonau'r rheoleiddiwr ar gyfer addysg a hyfforddiant yn ei gwneud yn ofynnol i'r safonau ar gyfer cofrestru gael eu cynnwys fel rhan o gwricwlwm y rhaglen<br>• Tystiolaeth bod safonau'r rheoleiddiwr ar gyfer addysg a hyfforddiant yn darparu ar gyfer cyfranogiad cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a/neu ofalwyr mewn rhaglenni addysg a hyfforddiant<br>• Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn darparu canllawiau i ddarparwyr addysg a hyfforddiant i'w helpu i ddeall a bodloni safonau'r rheoleiddiwr |

<table>
<tr><td>Safon Naw<br>Mae gan y rheoleiddiwr fecanwaith cymesur a thryloyw ar gyfer sicrhau ei hun bod y darparwyr a rhaglenni addysgol mae'n eu goruchwylio yn darparu myfyrwyr a hyfforddeion sy'n bodloni gofynion y rheolyddion ar gyfer cofrestru, ac yn gweithredu ble mae ei weithgareddau sicrwydd yn nodi pryderon naill ai am hyfforddiant neu bryderon diogelwch cleifion ehangach.</td><td>• Disgrifiad/dogfennau proses/canllaw yn ymwneud â'r broses SA, gan gynnwys dadansoddi, arolygu, penodi a hyfforddi ymwelwyr/arolygwyr/paneli, ac adolygu prosesau<br>❖ Gwybodaeth am waith y rheoleiddiwr i hyrwyddo cymesuredd yn y broses sicrhau ansawdd<br>• Cynnwys ymwelwyr lleyg/arolygwyr/aelodau panel<br>• Tystiolaeth o weithgarwch sicrhau ansawdd rheoleiddiwr, gan gynnwys adroddiadau canlyniadau ac unrhyw bryderon neu dueddiadau a nodwyd a chamau dilynol a gymerwyd, er enghraifft pan fo cymeradwyaeth yn ddarostyngedig i amodau<br>• Tystiolaeth o broses i godi pryderon am raglenni addysg/hyfforddiant a chamau a gymerwyd mewn perthynas â'r pryderon hyn, gan gynnwys nifer y pryderon a godwyd a monitro unrhyw themâu<br>❖ Gwybodaeth am sut y cesglir adborth gan sefydliadau addysgol, myfyrwyr a rhanddeiliaid eraill, a sut y defnyddir yr adborth hwn<br>❖ Gwybodaeth yn amlinellu'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd mewn prosesau sicrhau ansawdd, gan gynnwys adroddiadau allanol<br>❖ Arfarnu a yw rhaglenni'n darparu hyfforddeion sy'n bodloni'r anghenion ar gyfer cofrestru, gan gynnwys defnyddio adborth gan gyflogwyr<br>❖ Tystiolaeth bod y broses SA yn canolbwyntio ar gadarnhau bod darparwyr yn cynhyrchu myfyrwyr a hyfforddeion sy'n bodloni'r safonau ar gyfer cofrestru<br>❖ Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn ystyried unrhyw dueddiadau perthnasol a dysgu o ganlyniadau FTP myfyrwyr lle bo'n briodol fel tystiolaeth ar gyfer y broses SA</td></tr>
<tr><td colspan="2">Cofrestru</td></tr>
<tr><td></td><td>Tystiolaeth bosibl</td></tr>
<tr><td>Safon Deg<br>Mae'r rheoleiddiwr yn cynnal ac yn cyhoeddi cofrestr gywir o'r rhai sy'n bodloni ei ofynion yn cynnwys unrhyw gyfyngiadau ar eu hymarfer.<br><br>(I gynnwys cofrestriad eiddo a busnes lle bo'n berthnasol)</td><td>❖ Fformat a chynnwys y gofrestr ar-lein<br>❖ Gwybodaeth am y rhesymeg dros gynnwys y wybodaeth a ddangosir ar y gofrestr, gan gynnwys gofynion cyfreithiol lle bo'n berthnasol<br>❖ Gwiriadau cofrestr a wneir gan yr Awdurdod<br>❖ Proses ar gyfer diweddaru a sicrhau ansawdd y gofrestr, gan gynnwys gwirio cywirdeb data<br>❖ Gwybodaeth am gysylltiadau rhwng FTP a swyddogaethau cofrestru i sicrhau bod unigolion cofrestredig yn parhau i fod wedi'u cofrestru'n briodol<br>❖ Gwybodaeth am sut mae'r gofrestr yn cael ei diweddaru gyda gwybodaeth FTP</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| **Safon Un ar Ddeg**<br>Mae'r broses ar gyfer cofrestru, yn cynnwys apeliadau, yn gweithredu'n llyfn, yn deg ac effeithiol, gan esbonio penderfyniadau yn glir.<br><br>(I gynnwys cofrestriad eiddo a busnes lle bo'n berthnasol) | ❖ Gweithdrefnau gweithredu safonol (SOPs)/dogfennau eraill sy'n disgrifio'r broses asesu ar gyfer ceisiadau i gofrestru, adfer ac adnewyddu, a ffurflenni/templed llythyrau cysylltiedig<br>• Disgrifiadau o'r prosesau, amserlenni a meini prawf gwahanol ar gyfer gwahanol fathau o ymgeiswyr (graddedigion y Deyrnas Unedig, ymgeiswyr AEE ac ati)<br>• Disgrifiad o'r ffactorau y mae'n rhaid eu hystyried wrth benderfynu a yw'r meini prawf ar gyfer cofrestru, adfer ac adnewyddu yn cael eu bodloni<br>❖ Arweiniad i benderfynyddion, ac ymgeiswyr, sy'n disgrifio'r broses ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau/apeliadau<br>❖ Tystiolaeth o gymhwyso'r safonau a'r prosesau ar gyfer cofrestru yn gyson<br>❖ Tystiolaeth bod prosesau'r rheoleiddiwr ar gyfer gwneud penderfyniadau mewn perthynas â chofrestru ac apeliadau yn gymesur, yn deg, yn effeithlon ac yn arwain at benderfyniadau clir<br>❖ DPA a chytundebau lefel gwasanaeth (CLGau) sy'n nodi amserlenni ar gyfer penderfynu a phrosesu ceisiadau/apeliadau<br>• Ffurflenni a chanllawiau sy'n darparu gwybodaeth am y prosesau i ymgeiswyr<br>• Prosesau ar gyfer codi pryderon<br>• Enghreifftiau o esboniadau o benderfyniadau, gan gynnwys apeliadau<br>❖ Prosesau i sicrhau ansawdd penderfyniadau cofrestru, a chanlyniadau hyn, gan gynnwys unrhyw ddysgu<br>• Eitemau Set Ddata perthnasol<br>• Deddfwriaeth berthnasol |
| **Safon Deuddeg**<br>Rheolir y risg o niwed i'r cyhoedd, a difrod i hyder y cyhoedd yn y proffesiwn yn gysylltiedig â rhai nad ydynt wedi cofrestru yn defnyddio teitl a ddiogelir neu'n cyflawni gweithred a ddiogelir mewn modd cymesur a seiliedig ar risg. | ❖ SOPs/dogfennau proses yn amlinellu sut mae'r rheoleiddiwr yn delio gyda chyhuddiadau ymarfer anghyfreithiol<br>❖ Data ar nifer yr achosion a adolygir gan y rheoleiddiwr bob blwyddyn, ac enghreifftiau o sut y rheolwyd y rhain<br>❖ Gwybodaeth sy'n amlinellu sut mae dull y rheoleiddiwr yn y maes hwn yn gymesur â'r risgiau a berir<br>❖ Meini prawf ac CLGau ar gyfer penderfynyddion<br>❖ Gwerthusiad o gysondeb y penderfyniadau a wneir mewn perthynas â gweithredu ynghylch cwynion mewn perthynas ag arfer anghyfreithlon/anghofrestredig<br>• Gwybodaeth i'r cyhoedd am ymarfer anghyfreithlon a sut mae'r rheoleiddiwr yn delio â honiadau o ymarfer anghyfreithlon<br>• Gwybodaeth am strategaeth/polisïau'r rheoleiddiwr mewn perthynas ag ymarfer anghyfreithlon<br>• Rhesymeg y rheoleiddiwr dros ei ddull gweithredu<br>• Deddfwriaeth berthnasol |

| | |
|---|---|
| **Safon Tair ar Ddeg**<br>Mae gan y rheoleiddiwr ofynion cymesur i fodloni ei hun fod unigolion cofrestredig yn dal i fod yn addas i ymarfer.<br><br>(I gynnwys cofrestriad eiddo a busnes lle bo'n berthnasol) | • Gwybodaeth am y broses y mae'n rhaid i unigolion cofrestredig ei dilyn i ddangos CFTP<br>❖ SOPs/dogfennau proses sy'n disgrifio sut mae CFTP yn cael ei asesu gan y rheoleiddiwr<br>• Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr wedi targedu ei system CTFP gymesur tuag at ddiogelu'r cyhoedd a sicrhau bod unigolion cofrestredig yn datblygu eu sgiliau ym mhob maes ymarfer perthnasol<br>❖ Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn nodi ac yn defnyddio'r wybodaeth y mae'n ei chasglu ar sut mae unigolion cofrestredig yn ymgymryd â CFTP i lywio a datblygu ei brosesau a'i ganllawiau<br>❖ Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn ceisio adborth ar ei brosesau CFTP, ac yn ystyried yr adborth hwn wrth wneud newidiadau i'r prosesau hyn<br>❖ Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn adolygu ei brosesau CFTP yn rheolaidd i sicrhau bod y rhain yn parhau i fod yn addas at y diben<br>• Gwybodaeth i unigolion cofrestredig a'r cyhoedd am sut mae'r rheoleiddiwr yn asesu CFTP<br>• Gwybodaeth am sut mae'r rheoleiddiwr yn monitro gweithrediad ei system CFTP, megis lefelau cydymffurfio ac adrodd ar berfformiad<br>• Deddfwriaeth berthnasol |

## Addasrwydd i ymarfer

| | **Tystiolaeth bosibl** |
|---|---|
| **Safon Pedair ar Ddeg**<br>Mae'r rheoleiddiwr yn galluogi unrhyw un i fynegi pryder am unigolyn cofrestredig | ❖ Gwybodaeth am weithgarwch ymgysylltu a gyflawnwyd i fesur a/neu wella ymwybyddiaeth o broses FTP y rheoleiddiwr<br>❖ Gwybodaeth sydd ar gael i staff a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau am y mathau o bryderon y gellir delio â nhw<br>❖ Gwybodaeth am atgyfeiriadau drwy swyddogaeth archwilio mangreoedd/busnes rheoleiddiwr, lle bo'n berthnasol<br>• Eitemau Set Ddata perthnasol<br>• Materion a godwyd gyda'r Awdurdod gan y cyhoedd<br>• Canfyddiadau perthnasol o archwiliad a gynhaliwyd gan yr Awdurdod |
| **Safon Pymtheg**<br>Mae proses y rheoleiddiwr ar gyfer archwilio ac ymchwilio achosion yn deg, yn gymesur, yn delio gydag achosion yn gyflym ac yn gyson gyda datrysiad teg o'r achos ac yn sicrhau bod tystiolaeth briodol ar gael i | ❖ SOPs/dogfennau proses sy'n nodi sut mae'r rheoleiddiwr yn rheoli camau'r broses FTP, a ffurflenni/templed llythyrau cysylltiedig<br>❖ CLGau a DPA perthnasol i bob cam o'r broses FTP a thystiolaeth o sut mae cydymffurfiad wedi ei fonitro; deilliannau'r broses fonitro a chamau a gymerwyd parthed diffyg cydymffurfiad<br>❖ Arweiniad, meini prawf a CLGau ar gyfer penderfynyddion a gwybodaeth am ba mor aml mae'r dogfennau hyn yn cael eu hadolygu a'r broses ar gyfer eu hadolygu<br>❖ Gwybodaeth am sut mae'r rheoleiddiwr yn sicrhau ei hun ei fod yn symud achosion yn eu blaenau mewn modd amserol ac yn ymchwilio i'r rhain yn drylwyr<br>❖ Tystiolaeth bod amserlenni ar gyfer pob cam o'r broses FTP yn cael eu monitro'n weithredol, a bod achosion yn |

| | |
|---|---|
| gefnogi penderfynwyr i ddod i benderfyniad teg sy'n diogelu'r cyhoedd ar bob cam o'r broses. | cael eu rheoli'n effeithlon ac yn rhagweithiol er mwyn osgoi oedi<br>❖ Gwybodaeth am benodi, hyfforddi a gwerthuso penderfynwyr<br>• Tystiolaeth bod y rheoleiddiwr yn nodi'n glir sut mae'n penderfynu pa gwynion sy'n cyrraedd ei drothwy ar gyfer ymchwilio, a sut mae'r trothwy hwn yn cael ei gymhwyso'n gyson, yn deg, ac yn unol â'i safonau, rheolau a pholisïau<br>• Eitemau Set Ddata perthnasol<br>• Pryderon a godwyd gyda'r Awdurdod gan y cyhoedd<br>• Gwybodaeth a ddarparwyd gan dîm S29 yr Awdurdod<br>• Canfyddiadau perthnasol o archwiliad a gynhaliwyd gan yr Awdurdod<br>• Deddfwriaeth berthnasol |

| | |
|---|---|
| **Safon Un ar Bymtheg**<br>Mae'r rheoleiddiwr yn sicrhau y gwneir pob penderfyniad yn unol â'i brosesau, eu bod yn gymesur, yn gyson a theg, yn ystyried yr amcanion statudol, safonau'r rheoleiddiwr a'r gyfraith achos berthnasol ac yn blaenoriaethu diogelwch cleifion a defnyddwyr gwasanaeth. | ❖ Arweiniad, meini prawf a CLGau ar gyfer penderfynyddion a gwybodaeth am ba mor aml mae'r dogfennau hyn yn cael eu hadolygu a'r broses ar gyfer eu hadolygu<br>❖ Prosesau i sicrhau ansawdd penderfyniadau a wneir i beidio ag ymchwilio, a nodi unrhyw ddysgu perthnasol<br>❖ Proses ar gyfer, a chanlyniad, sicrwydd mewnol rheolaidd o benderfyniadau a wneir gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar bob lefel o'r broses FTP<br>❖ Gwybodaeth am y nifer o bryderon a godwyd/cwynion a wnaed a ategwyd o ran ansawdd penderfyniadau FTP, a chamau a gymerwyd mewn ymateb.<br>❖ Gwybodaeth am benodi, hyfforddi a gwerthuso penderfynwyr<br>❖ Dogfennau canllaw ar gyfer penderfynwyr i sicrhau cysondeb penderfyniadau<br>• Eitemau Set Ddata perthnasol<br>• Gwybodaeth a ddarparwyd gan dîm S29 yr Awdurdod<br>• Pryderon a godwyd gyda'r Awdurdod gan y cyhoedd<br>• Canfyddiadau perthnasol o archwiliad a gynhaliwyd gan yr Awdurdod |
| **Safon Dwy ar Bymtheg**<br>Mae'r rheoleiddiwr yn nodi ac yn blaenoriaethu pob achos sy'n awgrymu risg difrifol i ddiogelwch cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth ac yn ceisio gorchmynion dros dro ble fo'n briodol. | ❖ SOPs/prosesau ar gyfer asesiad risg cychwynnol a pharhaus achosion, yn ogystal â'r broses ble mae'r rheoleiddiwr yn blaenoriaethu achosion<br>❖ Canllawiau i benderfynwyr ar feini prawf ar gyfer atgyfeiriadau gorchymyn interim<br>❖ Prosesau a chanllawiau i staff ar asesu risg a rheoli achosion ar adeg derbyn a thrwy gydol oes ymchwiliad<br>❖ Prosesau ar gyfer adolygu a yw asesiadau risg yn effeithiol ac yn amserol<br>❖ Data ar nifer y paneli gorchmynion interim a gynullwyd a nifer y gorchmynion interim a gyhoeddwyd<br>• Eitemau Set Ddata perthnasol<br>• Canfyddiadau perthnasol o archwiliad a gynhaliwyd gan yr Awdurdod<br>• Deddfwriaeth berthnasol |

| | |
|---|---|
| **Safon Deunaw**<br>Cefnogir pob parti i gŵyn i gymryd rhan effeithiol yn y broses. | • Gwybodaeth i gyfranogwyr y broses, megis canllawiau i dystion<br>❖ CLGau, SOPs a chanllawiau i staff ar roi'r wybodaeth ddiweddaraf i bawb yn rheolaidd; monitro cydymffurfiad â'r CLGau, yr SOPs a'r dogfennau canllaw hynny; a chymryd camau adferol yn brydlon a nodi materion thematig<br>❖ Gwybodaeth am yr hyfforddiant a roddir i reolwyr achos, gan gynnwys am yr ystyriaethau priodol o ran tystiolaeth unigolion agored i niwed<br>❖ Gwybodaeth ac arweiniad sydd ar gael i staff, a phrosesau ar waith i nodi a chefnogi partïon agored i niwed a/neu eu cyfeirio at wasanaethau cymorth<br>❖ Gwybodaeth am y cyfle i bob parti roi adborth ar y broses, a'r hyn a ddysgwyd o hyn<br>❖ Gwybodaeth am fonitro cwynion a wnaed/pryderon a godwyd am y broses FTP ac am brofiadau tystion/hysbyswyr o'r broses<br>• Gwybodaeth wedi'i chyhoeddi am sefydliadau eraill a all gynnig cymorth i bartïon (gan gynnwys cymorth emosiynol) a/neu wybodaeth am wasanaethau cymorth sy'n cael eu rhedeg neu eu comisiynu gan y rheoleiddiwr<br>• Safonau gwasanaeth cwsmeriaid cyhoeddedig / amserlenni ar gyfer y broses<br>• Mynegwyd pryderon gyda'r Awdurdod gan y cyhoedd ac adborth trydydd parti<br>• Canfyddiadau perthnasol o archwiliad a gynhaliwyd gan yr Awdurdod |